

Cymuned Bach!

Pasg

Stori

Penblethau

Lliwio

Gweddion

Gemau

Crefft



Diwrnod Hapus

Roedd hi'n gynnar iawn. Doedd yr adar ddim wedi deffro. A doedd yr haul ddim wedi agor ei lygaid llachar ar y byd eto. Roedd yr awyr yn llwyd ac yn niwlog. Roedd yr awel yn oer. Ac fe gerddodd tair gwraig yn araf tua'r fynwent.

Roedd Iesu wedi cael ei gladdu yno. Ac roedd y gwagedd yn ymweld a'i fedd.

Roedden nhw'n sibrwd a'i gilydd yn drist. Roedden nhw'n llefain. Roedden nhw'n dal dwylo ei gilydd. Roedd Iesu wedi marw ers tri diwrnod, ac roedden nhw'n ei golli yn fawr iawn.

Fodd bynnag, wrth iddyn nhw gyrraedd y fynwent digwyddodd rhai pethau rhyfedd. Dechreuodd y ddaear ysgwyd. Dechreuodd yr awel grynu. Ac yn gyflym fel mellten, disgynnodd angel o'r nefoedd a rholiodd y garreg i ffwrdd oddi ar fedd Iesu!

"Peidiwch ag ofni," meddai'r angel. "Dewch i weld, Mae'r bedd yn wag. Mae Iesu'n fyw!"

Fraich ym mraich, sleifiodd y gwagedd heibio i'r angel ac i mewn i'r bedd. Roedd y llieniau yno o hyd - y llieniau roedden nhw wedi lapio am ei gorff marw. Ond roedd Iesu ei hun wedi mynd!

"Ble mae e?" gofynnodd y gwagedd. "Beth ry'ch chi wedi ei wneud ag e?"

"Fe ddwedais i wrthoch chi," gwenodd yr angel. "Dyw e ddim yn farw bellach. Mae e wedi dod yn ol yn fyw. Ac mae e am i chi ddweud wrth ei ffrindiau i gyd."

Edrychodd y gwraigedd ar ei gilydd. Doedden nhw ddim yn gwybod a ddylen nhw chwerthin neu lefain. Prin fedren nhw gredu - hynny yw, nes iddyn nhw redeg allan o'r bedd ac yn syth I mewn I Iesu.

"O, Iesu!" medden nhw. "Mae e'n wir. Rwyd ti'n fyw!" A dyma nhw'n syrthio ar eu penliniau wrth ei draed, mewn rhyfeddod!

"Does dim angen ofni rhagor," meddai. "Mae Duw wedi gwneud popeth yn iawn. Ond mae gen i waith i chi. Rydw i am i chi ddweud wrth weddill fy ffrindiau fy mod i'n fyw. Dwedwch wrthyn nhw y bydda i'n eu cyfarfod nhw ar lan y llyn, yng Ngalilea, lle dechreuodd ein hanturiaethau ni i gyd."

Ffarweliodd y gwraigedd a Iesu a brysio tua Jerwsalem. Roedd yr adar yn canu nawr. Roedd llygad llachar yr haul ar agor led y pen. Ac roedd ganddyn nhw'r stori fwyaf rhyfeddol erioed i'w hadrodd.

Awdur: Bob Hartman & Krisztina Kallai Nagy
Wedi eu cymerud o Beibl Newydd Y Storiwr
Addasiad Cymraeg gan Cynthia Davies

Defnyddiwch hwn i helpu chi a eich teulu i drafod y stori (Dim ond ar gael yn Saesneg).



Cerddoriaeth



**Can Saesneg: Jesus
is Alive gan Kids
Ablaze Inc**



Gweddi Creadigol

Croes Blodeuol


Mae'r Arglwydd wedi dod yn ôl yn fyw. Luc 24:34

**Bydd Angen: Croes wedi torri allan o darn mawr or carden brown;
blodau wedi torri allan o papur lliwgar; pen; glud.**

Cyfarwyddiadau

Mae'r groes yn atgoffa ni am Dydd Gwener y Groglith achos dyna'r ddydd wnaeth Iesu marw ar ein cyfer ni. Mae'r groes yn symbol o marwolaeth Iesu, ond wnaeth Iesu ddim aros ar y groes: daeth e nol yn fyw, felly mae hefyd yn symbol bywyd newydd.

Ysgrifennwch gweddion ar y blodau a'i gludo i'r groes er mwyn atgoffa chi fod Iesu'n fyw



www.bijbelidee.nl



Creftiau

Rholyn Atgyfodiad

Bydd Angen

1 pecyn o toes croissant
Menyn wedi toddi
Malws Melys
Sinamon
Siwgr

Cyfarwyddiadau

1. Cynheswch y ffwrn i 350 gradd.
2. Rhowch un triongl i bob plentyn - Mae'r triongl yn cynrychioli'r lliain roedd lesu wedi cael ei lapio o amgylch
3. Rhowch malws melys i bob plentyn - mae hwn yn cynrychioli lesu
4. Trochwch y malws melys yn menyn wedi ei toddi - Sy'n cynrychioli yr olew rhoddod ar corff lesu
5. Yna trochwch y malws melys i mewn i sinamon a siwgr ar ol y menyn - Mae'r siwgr a sinamon yn cynrychioli'r perlysiâu a ddefnyddwyd i eneinio corff lesu.
6. Lapiwch y malws melys yn dyn yn y triongl - Sy'n cynrychioli'r amser pan wnaeth y bobl lapio corff lesu mewn lliain
7. Rhowch yn y ffwrn a 10 i 12 muned - Mae'r ffwrn yn cynrychioli'r bedd.
8. Pan mae'r rholyn wedi oeri, gall y plant agor ei rholyn a gweld fod lesu wedi atgyfodu.

Cwis

1. **Wedi i Iesu farw, lle rhoddwyd ei gorff i'w gladdu?**
2. **Sut roedd y disgyblion yn teimlo ar ol i Iesu farw?**
3. **Ar ba ddiwrnod aeth rhai o'r marchod ag olew a sbeisys i'w rhoi ar gorff Iesu?**
4. **Beth welodd y marchod wrth ddod at yr ogof?**
5. **Beth ddywedodd yr angylion wrthynt?**
6. **Am beth roedd dau ffrind i Iesu yn son ar eu taith adref i Emaus?**
7. **Beth ddywedodd y dyn oedd yn teithio gyda nhw am Iesu?**
8. **Beth sylweddolodd y ddau pan gymerodd y dyn y bara a'i rannu?**
9. **Pwy ddaeth at y disgyblion pan oeddynt yn trafod yr hanesion am bobl yn gweld Iesu'n fyw?**
10. **Pa ddisgybl oedd heb weld Iesu ac nad oedd am gredu nes iddo weld drosto'i hun?**
11. **Wrth ba ddisgybl y dywedodd Iesu fod ganddo waith arbennig ar ei gyfer?**
12. **Cyn i Iesu fynd yn ol i'r nefoedd, beth oedd ei orchymyn i'r disgyblion?**

ATEBION YN Y BEIBL

